**Trosolwg:** Fe deithiais i CES, cynhadledd dechnoleg fwyaf y byd, yn Las Vegas, UDA, rhwng 4 ac 8 Ionawr. Roedd yn gyfle i weld rhywfaint o'r dechnoleg fwyaf a diweddaraf gan gwmnïau o bedwar ban byd.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys tua 3,200 o arddangoswyr ac roedd mwy na 115,000 o bobl o bob cwr o'r byd yn bresennol.

**Diwrnod 1 – 4 Ionawr**

Treulio'r diwrnod cyfan yn teithio ar ôl i hediadau gwahanol gael eu canslo neu eu gohirio. Wnes i ddim gadael Llundain am 4am a doedden ni ddim yn  Las Vegas tan oriau mân y diwrnod canlynol.

**CES 5-7 Ionawr**

Fe wnes i fynychu amrywiaeth o sesiynau holi ac ateb a thrafodaethau panel gan gynnwys rhai am fenywod mewn technoleg, deallusrwydd artiffisial a thrafnidiaeth.

Yn dilyn y panel menywod mewn technoleg, fe ges i gyfarfod un-i-un gyda Lindsay Jurist-Rosner, Prif Swyddog Gweithredol Wellthy, i siarad am ei chwmni sy'n trawsnewid gofal teuluol ac yn ysgafnhau'r baich ar ofalwyr di-dâl.

Roedd yn gyfle gwych i ddarganfod mwy am waith Lindsay ac archwilio sut y gallai fod o fudd i Gymru. Estynnwyd gwahoddiad hefyd i Lindsay ymweld â Senedd Cymru yn y dyfodol ac rwy'n parhau i ddilyn ei gwaith.

Roedd miloedd o arddangosion gwahanol yn y ganolfan gynadledda y bûm a ches gyfle i'w gweld yn y prynhawn.

Fe wnes i gwrdd hefyd â Markus Schafer, Prif Swyddog Technoleg Mercedes-Benz a buom yn trafod cynlluniau'r cwmni i greu pwyntiau gwefru cerbydau trydan a datblygiadau cyffrous eraill sydd ar y gweill.

Yna, cwrdd â mwy o bobl ar amryw stondinau yn y ganolfan gynadledda – gan ystyried o hyd sut y gallai eu cynnyrch fod o fudd i Gymru a'i phobl.

Treuliais rai oriau mewn cyfarfod â MedWand Solutions Ltd, cwmni sydd wedi dylunio dyfais feddygol hynod drawiadol.

Gyda'r GIG yng Nghymru dan bwysau aruthrol, fe wnaeth y cynnyrch fachu fy sylw o ddifri ac roeddwn i'n awyddus i gael gwybod mwy amdano.

Esboniodd staff o MedWand sut mae eu dyfais yn caniatáu i gleifion gael mynediad at ofal iechyd o'r ansawdd uchaf unrhyw le yn y byd a'i fod yn caniatáu i chi wirio gwybodaeth hanfodol, sydd yn ei dro yn galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i'ch diagnosio'n effeithiol yn ystod archwiliad fideo.

Treuliais lawer o amser gyda MedWand yn gweld arddangosiad ac yn siarad ag amryw o uwch aelodau'r tîm ynghylch pa wledydd sy'n caniatáu i'r ddyfais gael ei defnyddio a sut y gallant ei chymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru a gweddill y DU.

Gall y ddyfais hon newid y dirwedd feddygol yn sylweddol o ran darparu gofal iechyd o bell ac ysgafnhau'r pwysau ar y gwasanaethau iechyd.

Ers dychwelyd i'r DU, rydw i wedi cynnal trafodaethau gyda MedWand ac rwy'n gweithio gyda nhw'n agos.

Fe wnes i hefyd fynychu ambell sesiwn banel bellach ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys y cyfryngau, trafnidiaeth, iechyd a'r economi cyn cyfarfod ag arddangoswyr eraill.

Cwrddais â'r timau y tu ôl gwahanol greadigaethau megis y car cyntaf i'w bweru gan yr haul, tryciau dosbarthu trydan, y pwyntiau gwefru gorau, dronau, profion COVID a dyfeisiau realiti rhithiol.

Cwrddais hefyd â staff o gwmni Nuvilab o Dde Korea, sydd wedi creu Sganiwr Bwyd Deallusrwydd Artiffisial.

Roedd gen i ddiddordeb arbennig yn y ddyfais hon gan fod ganddi'r potensial i leihau gwastraff bwyd mewn ysgolion a lleoliadau eraill o'r fath ledled Cymru tra'n cynnig gwybodaeth ar unwaith am werth maeth.

Mae'r ddyfais yn sganio'r bwyd ar eich plât cyn i chi ddechrau bwyta ac yn rhoi gwybodaeth am faetholion i chi ar unwaith.

Drwy sganio'ch plât ar ôl i chi orffen bwyta, bydd y sganiwr yn gallu gweld faint o fwyd sydd wedi cael ei wastraffu a beth yw cost hynny.

Yna mae'r ddyfais yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr deilwra dognau i leihau gwastraff gan arbed arian yn y pen draw.

Mae bwytai, ysbytai ac ysgolion wrthi'n defnyddio'r ddyfais hon fel mesur arbed costau ac rwy'n credu y byddai'n fuddiol tu hwnt i ysgolion Cymru, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Ar ôl mynychu ambell sesiwn Holi ac Ateb a phaneli eraill gydol y prynhawn, cwrddais ag amryw o arddangoswyr eraill - yn arbennig y rhai sy'n datblygu ceir hunan-yrru.

Cwrddais hefyd â rhai cwmnïau realiti rhithwir a chwmnïau deallusrwydd artiffisial yn ogystal ag Amazon, cyn mynychu sesiynau holi ac ateb terfynol y gynhadledd.

**<u>Diwrnod 5 – 8 Ionawr</u>**

Treuliais y diwrnod cyfan yn teithio'n ôl i'r DU.